



William Powell AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deisebau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd CF99 1NA

15/09/2015

Annwyl Mr Powell,

Deiseb P-04-632 Mynyddoedd Pawb

Diolch ichi am eich llythyr yn gofyn am fy marn ar ddeiseb Mynyddoedd Pawb. Cyn ymateb hoffwn amlinellu weithgarwch fy swyddfa yn y maes enwau lleoedd.

1. Prif nod y Comisiynydd yw hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Gwneir hyn drwy ddwyn sylw at y ffaith bod statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru a thrwy osod safonau ar sefydliadau. Bydd hyn, yn ei dro yn arwain at sefydlu hawliau i siaradwyr Cymraeg.

Mae dwy egwyddor yn sail i waith y Comisiynydd:

- Ni ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru;
- Dylai personau yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

Dros amser fe fydd pwerau newydd i osod a gorfodi safonau ar sefydliadau yn dod i rym trwy is-ddeddfwriaeth. Hyd nes y bydd hynny'n digwydd bydd y Comisiynydd yn parhau i arolygu cynlluniau iaith statudol trwy bwerau y mae wedi eu hetifeddu o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.

Crëwyd swydd y Comisiynydd gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Caiff y Comisiynydd ymchwilio i fethiant i weithredu cynllun iaith; ymyrraeth â'r rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg yng Nghymru ac, yn y dyfodol, i gwynion ynghylch methiant sefydliadau i gydymffurfio â safonau.

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5-7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

0845 6033 221
post@comisiynyddygyymraeg.org
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

comisiynyddygyymraeg.org

Welsh Language Commissioner
Market Chambers
5-7 St Mary Street
Cardiff CF10 1AT

0845 6033 221
post@welshlanguagecommissioner.org
Correspondence welcomed in Welsh and English

welshlanguagecommissioner.org



Un o amcanion strategol y Comisiynydd yw dylanwadu ar yr ystyriaeth a roddir i'r Gymraeg mewn datblygiadau polisi a deddfwriaethol. Felly un o brif swyddogaethau'r Comisiynydd yw darparu sylwadau yn unol â'r cylch gorchwyl hwn gan weithredu fel eiriolwr annibynnol ar ran siaradwyr Cymraeg yng Nghymru y gallai'r newidiadau arfaethedig hyn effeithio arnynt. Mae'r ymagwedd hon yn cael ei harddel er mwyn osgoi unrhyw gyfaddawd posibl ar swyddogaethau'r Comisiynydd ym maes rheoleiddio, a phe byddai'r Comisiynydd yn dymuno adolygu'n ffurfiol berfformiad cyrff unigol neu Lywodraeth Cymru yn unol â darpariaethau'r Mesur.

2. Gweithgarwch y Comisiynydd yn y maes enwau lleoedd

Mae *iaith fyw: iaith byw* Strategaeth y Gymraeg 2012-17 Llywodraeth Cymru yn nodi bod gan Gomisiynydd y Gymraeg gyfrifoldeb dros gydgyssylltu datblygiadau ym maes enwau lleoedd Cymraeg. Mae gan Gomisiynydd y Gymraeg gyfrifoldeb hefyd i gynnis cyngor ar ffurfiau safonol enwau lleoedd yng Nghymru. Etifeddwyd y cyfrifoldeb hwn pan ddiddymwyd Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn 2012. Nid oes gan y Comisiynydd bwerau statudol yn y maes ac nid oes grym cyfreithiol i'r cyngor na'r argymhellion ond darperir argymhellion ar ffurfiau safonol enwau lleoedd i asiantaethau o bob math, gan gynnwys Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol. Mae gan y Comisiynydd banel o arbenigwyr sef y Panel Safoni Enwau Lleoedd sy'n cefnogi gwaith y Comisiynydd yn argymhell ffurfiau safonol enwau lleoedd. Mae gwaith y Comisiynydd yn y maes hwn yn canolbwyntio ar enwau aneddiadau (trefi, pentrefi ayb) yn hytrach nag ar enwau tirweddol (mynyddoedd, afonydd ayb) neu enwau nodweddion ffisegol gweithgarwch dynol megis adeiladau ayb.

3. Nid oes gennyf gyfrifoldeb penodol mewn perthynas ag amddiffyn na hybu enwau lleoedd Cymru. Er hynny, rwy'n ymwybodol o'r pryderon a fynegir yn y ddeiseb ac fe fuaswn yn gefnogol o'r egwyddorion sydd wrth wraidd yr angen i ddiogelu a pharchu ein cyfoeth enwau lleoedd er mwyn:

1. *Ysgogi parch a diddordeb yn yr iaith Gymraeg ac i sicrhau a chynyddu'r defnydd ohoni*
2. *Cynyddu'r ymdeimlad o hunaniaeth ymysg cymunedau lleol drwy rannu cyfoeth ein treftadaeth ddiwylliannol gydag eraill*
3. *Ennyn diddordeb ac ymwybyddiaeth ymwelwyr o gyfoeth ein treftadaeth leol a thrwy hynny ddod â buddion addysgol ac economaidd i ardaloedd.*

Gellid dadlau bod cyfrifoldeb moesol o leiaf, ar i sefydliadau cyhoeddus Cymru i ddiogelu a pharchu enwau lleoedd Cymru oherwydd eu bod yn sefydliadau cenedlaethol sydd â dyletswydd i adlewyrchu hanes a diwylliant y wlad. Mewn egwyddor felly ni fuaswn yn gwrthwynebu camau rhesymol y gallasid eu cymryd i ddiogelu enwau lleoedd Cymru gan y sefydliadau a enwir yn y ddeiseb. Fan leiaf, byddai modd i Lywodraeth Cymru roi cyfarwyddyd penodol i'r sefydliadau sy'n derbyn cyllid ganddi i ddefnyddio ffurfiau cywir ar enwau a sicrhau eu bod yn ymgynghori â sefydliad addas wrth bennu'r enwau hynny. Yn yr un modd, buaswn yn cefnogi camau i godi ymwybyddiaeth o enwau lleoedd a'u treftadaeth mewn cyrsiau addysg a hyfforddiant awyr agored ar bob lefel.



4. Rwy'n nodi bod y ddeiseb yn gofyn yn benodol ar i Lywodraeth Cymru ddod ag enwau lleoedd traddodiadol a hir sefydlog o dan reolaeth gynllunio. Er mwyn galluogi hynny byddai angen dull o bennu'r enwau hynny y dylid eu rhoi o dan reolaeth gynllunio. I wneud hynny ac er mwyn rhoi cyfarwyddyd penodol i'r asiantaethau y cyfeirir atynt yn y ddeiseb tybiaf y byddai angen sefydlu corff fyddai'n gyfrifol am bennu'r enwau. Byddai angen i'r corff hwnnw osod meini prawf pendant iawn ynghylch sut y byddai'n pennu'r ffurfiau hyn ac fe ddylai gyhoeddi ei ffurfiau swyddogol mewn cofrestr gyhoeddus. Gallasai bennu ffurfiau swyddogol ar enwau lleoliadau eraill yng Nghymru hefyd ac fe allai hynny fod o fudd ehangach megis ym maes mapio, trafniadaeth, cynllunio, cyfeiriadau, gwasanaethau brys, cyfathrebu ayb. Byddai modd i'r corff hwn annog y defnydd o'r enwau gan sefydliadau cyhoeddus yn ogystal ag unigolion a sefydliadau o'r trydydd sector a'r sector preifat.
5. Gan ei fod yn fater sy'n peri pryder i gynifer credaf fod angen rhagor o ymchwil i ddulliau posibl o ddiogelu enwau lleoedd Cymru a bod modd gwneud hynny drwy ystyried gweithgareddau o'r fath mewn gwledydd eraill. Os yw'n fwriad gennych ystyried sefydlu corff i hwyluso dod ag enwau o dan reolaeth gynllunio er enghraifft, awgrymaf eich bod yn ystyried gweithgareddau pennu enwau lleoedd mewn gwledydd eraill gan gynnwys Canada ac Awstralia (gan gynnwys taleithiau De Cymru Newydd a Victoria). Mae deddfwriaeth yn y gwledydd hyn sy'n sefydlu byrddau penodol sy'n gyfrifol am bennu ffurfiau safonol enwau er budd gweithgareddau mapio, cynllunio ac isadeiledd. Mae'r byrddau hyn yn cyhoeddi eu ffurfiau mewn cronfa gyhoeddus. Yn Ne Cymru Newydd, er enghraifft mae'n drosedd defnyddio enwau ar leoliadau mewn cyhoeddiadau o bob math oni bai am yr enwau sydd wedi'u cyhoeddi yn y gronfa gyhoeddus.¹
6. Yn ddiweddar yn fy ymateb i ymgynghoriad y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ar Fil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) cynigais welliant i'r Bil sy'n gofyn i'r cofnodion amgylchedd hanesyddol y bydd dyletswydd ar awdurdodau lleol i'w cyhoeddi gynnwys manylion pob ardal neu safle neu fan arall yn ardal yr awdurdod y mae ei enw o ddiddordeb hanesyddol a diwylliannol. Rwyf wedi nodi y dylai *enw* nodwedd ffisegol gweithgarwch dynol fod yn rheswm dros ddiogelu'r nodwedd yn yr amgylchedd hanesyddol, a thrwy hynny ddiogelu enw'r nodwedd. Rwyf hefyd wedi nodi y dylai'r Panel Cyngori ar Amgylchedd Hanesyddol Cymru a sefydlir gan y Bil gynnwys arbenigedd ym maes enwau lleoedd. Atodaf gopi o fy ymateb i'r ymgynghoriad hwnnw. Yng nghyfarfod y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ar 8 Gorffennaf 2015 dywedodd y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth, Kenneth Skates AC y byddai'n fodlon ystyried 'cynigion ac argymhellion mewn perthynas â chofnodion yr amgylchedd hanesyddol'².

¹ http://www.austlii.edu.au/au/legis/nsw/consol_act/gna1966158/s15.html [cyrchwyd 31/07/2015]

² Fy nghyfieithiad i sydd yma.



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

7. Dylwn nodi hefyd fod Rhodri Glyn Thomas AC ar 2 Gorffennaf 2015 yn nhrafodaethau'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol am y Bil uchod wedi gofyn a fyddai modd rhoi ystyriaeth i 'drefn gydsynio ar gyfer newid enwau' ac wedi gofyn am nodyn cyfreithiol ynghylch y mater. Dywedodd Cadeirydd y Pwyllgor, Christine Chapman AC y byddai'r Pwyllgor yn ymchwilio i'r mater. Rwy'n tybio y gallasai canlyniadau'r ymchwil hwnnw fod yn ddefnyddiol ichi wrth ichi ystyried y ddeiseb hon.

Hoffwn ddiolch ichi am y cyfle hwn i roi sylw ar y ddeiseb uchod gan Fynyddoedd Pawb. Gwn ei fod yn bryder mewn cymunedau ar draws Cymru fod enwau lleoedd o bob math yn cael eu newid gan golli cysylltiad pwysig â hanes a threftadaeth yr ardal oedd hynny. Gan amlaf, ond nid bob tro, mae'r enwau hynny yn rhai Cymraeg yn wreiddiol. Bellach yn sgil Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 mae'r Gymraeg yn iaith swyddogol yng Nghymru. Mae'n achos pryder gwirioneddol fod enwau lleoedd Cymraeg yn cael eu tansilio a'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol ar lawr gwlad yn union ar yr un amser ag y mae'n cael ei hystyried yn iaith swyddogol yn llygaid y gyfraith. Byddai cyflwyno camau cadarnhaol i atal hynny ac i ddiogelu enwau lleoedd Cymru yn gam pwysig ymlaen.

Yr eiddoch yn gywir,

Meri Huws
Comisiynydd y Gymraeg

Amg.